



Swyddog Gweinyddol Rhif y Swydd: NU405

Gradd 5: £22,369 - £22,777 y flwyddyn

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yw un o Wasanaethau Tân ac Achub mwyaf blaenllaw'r DU a'r mwyaf o'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru. Mae ardal ein Gwasanaeth yn ymestyn o Gas-gwent yn y Dwyrain i Bort Talbot yn y Gorllewin ac o arfordir y De i Fannau Brycheiniog yn y Gogledd. Rydym yn gweithredu o 47 o Orsafoedd Tân ar draws ardal y Gwasanaeth a'n Pencadlys yn Llantrisant.

Mae swydd **barhaol** fel Swyddog Cymorth Gweinyddol Cymorth Busnes wedi codi o fewn ein Hadran Cymorth Busnes yng Ngwasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Lleolir y rôl yn ein Pencadlys yn Llantrisant ac mae am **37 awr yr wythnos**.

Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd hon.

Gellir canfod mwy o fanylion mewn perthynas â'r swydd hon o fewn y Swydd-Ddisgrifiad a'r Fanyleb Person. Pe bai gennych unrhyw gwestiynau ychwanegol, fe'ch gwahoddir i gysylltu â'r Rheolwr Cymorth Busnes, Nicola Davies ar e-bost: n-@decymru-tan.gov.uk neu wrth ffonio **01443 232209**.

Dylid llenwi Ffurflenni Cais ar-lein trwy ein system e-recriwtio, y gellir ei chyrru trwy ein gwefan: <https://www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-gyda-ni/swyddi-diweddaraf/>

Os oes angen fersiwn papur, e-bostiwch: personel@decymru-tan.gov.uk

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw: **14/12/2022 12:00 ganol dydd**.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ac rydym yn croesawu cyfathrebu yn y ddwy iaith. Ni fydd ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol. Bydd ymgeiswyr sy'n llwyddo yn y cam Llunio Rhestr Fer yn cael cyfle i gadarnhau eu dewis iaith ar gyfer cyfweiliadau ac asesiadau (gan gynnwys gwaith papur, cyflwyniadau llafar a chwestiynau cyfweiliad). Bydd y trefniadau'n cael eu cadarnhau yn dilyn gwahoddiad i gyfweiliad a gellir darparu gwasanaeth Cyfieithu a/neu Gyfieithu ar y Pryd.

Rydym yn sefydliad sy'n ystyriol o deuluoedd a gweithredir polisi gweithio'n hyblyg.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac rydym yn dymuno annog yn rhagweithiol ymgeiswyr o bob sector cymdeithas i ymgeisio

